Hawdd ei Ddeall

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cwricwlwm newydd yng Nghymru

## Newid y ffordd y mae plant a phobl ifanc yn dysgu yn yr ysgol




Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Y Cwricwlwm i Gymru: Canllaw ar Ddyluniad a Gweithrediad y Cwricwlwm'.

**Ionawr 2020**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.

Efallai y byddwch angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.

Efallai bod rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain mewn **ysgrifen glas trwm** ac mae beth maen nhw'n feddwl yn cael ei esbonio yn y blwch o dan y gair.

Os ydy'r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto maen nhw'n cael eu dangos mewn ysgrifen glas normal. Gallwch weld beth maen nhw'n feddwl yn y Geiriau anodd ar dudalen 21.

Lle mae'r ddogfen yn dweud 'ni', mae hyn yn meddwl Llywodraeth Cymru. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

E-mail: CurriculumDesignandDevelopmentUnit@gov.wales

Twitter: @LlC_Addysg

Facebook: www.facebook.com/addysgcymru

Mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gael hefyd drwy ddilyn ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol **Mae Addysg yn Dechrau yn y Cartref**:

Twitter: @dechraucartref

Facebook: www.facebook.com/dechraucartref

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn un hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** drwy ddefnddio **Photosymbols**.

# Cynnwys

**Tudalen**


**Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma**........................................................2

**Cyflwyniad**........................................................................................4

**Rheolau mae'n rhaid i ysgolion eu dilyn**........ ...........................................5

4 prif nod y cwricwlwm........................................................................6

Am beth y dylai plant a phobl ifanc ddysgu?.........................................7

Y Celfyddydau Mynegiannol..................................................................7

Iechyd a llesiant.....................................................................................9

YDyniaethau.........................................................................................10

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu ..............................................11

Mathemateg a Rhifedd........................................................................11

Gwyddoniaeth a thechnoleg................................................................12

Sgiliau ar gyfer y cwricwlwm cyfan.....................................................13

Dysgu cydgysylltiedig..........................................................................14


Helpu pob dysgwr i wneud yn well .....................................................17

**Paratoi**.............................................................................................19

**Sut i gymryd rhan**............................................................................20

**Geiriau anodd**..................................................................................21

# Cyflwyniad




Yn 2022 rydyn ni'n mynd i newid y ffordd mae plant a phobl ifanc yn dysgu yn yr ysgol.



Ysgolion fydd nawr yn gofalu am ysgrifennu eu **cwricwlwm** eu hunain. Oherwydd nhw sydd yn adnabod y plant a'r bobl ifanc maen nhw'n eu dysgu a nhw sydd yn gwybod sut i ateb eu anghenion.



**Cwricwlwm** ysgol ydy cynllun ar gyfer beth fydd plant a phobl ifanc yn ei ddysgu yn yr ysgol. Mae'n dweud:

- Beth ddylen nhw ddysgu.
- Sut ddylen nhw ddysgu.
- Y rhesymau pam ddylen nhw ddysgu.




Rydyn ni'n ysgrifennu canllaw newydd am beth ddylai ysgolion ei roi yn eu cwricwlwm. Rydyn ni'n ysgrifennu'r canllaw yma i wneud yn siŵr bod:



• Pob plentyn a pherson ifanc yn dysgu mewn ffordd sydd yn iawn iddyn nhw.



- Plant a phobl ifanc yn deall syniadau a newidiadau newydd i bethau fel **technoleg**.

**Technoleg** ydy defnyddio gwyddoniaeth a gwybodaeth i'n helpu ni i wneud tasgau, er enghraifft defnyddio cyfrifiaduron a pheiriannau i wneud mwy a mwy.



- Plant a phobl ifanc yn gallu gwneud yn dda ac wedi cael eu paratoi ar gyfer y dyfodol.

## Rheolau mae'n rhaid i ysgolion eu dilyn



Fyddwn ni ddim yn dweud wrth ysgolion beth yn union i'w ddysgu yn eu gwersi.



Fe fydd yna ddeddf newydd sydd yn dweud beth mae'n **rhaid** iddyn nhw ei roi yn eu cwricwlwm newydd.

# 4 prif nod y cwricwlwm



**Rhaid** i bob ysgol ysgrifennu cwricwlwm sydd yn helpu plant a phobl ifanc i gyflawni'r 4 prif nod.

Mae'r 4 prif nod yn mynd i helpu plant a phobl ifanc i fod yn:



**1. Dysgwyr uchelgeisiol a galluog**

Mae hyn yn meddwl eu bod nhw'n credu ynddyn nhw eu hunain a beth maen nhw'n gallu ei wneud. Maen nhw eisiau dysgu a gwneud yn well. Mae ganddyn nhw'r sgiliau i ddysgu.




**2. Mentrus a chreadigol**

Mae hyn yn meddwl eu bod nhw'n gallu bod yn greadigol a meddwl am syniadau newydd. Maen nhw'n gallu gweithio problemau allan. Maen nhw'n gallu defnyddio hyn yn eu gwaith.



**3. Dinasyddion egwyddorol a gwybodus**

Mae hyn yn meddwl eu bod nhw'n deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Maen nhw'n cymryd rhan yn eu cymuned. Maen nhw'n edrych ar ôl y byd.



**4. Iach a hyderus**

Mae hyn yn meddwl bod ganddyn nhw feddwl a chorff iach. Maen nhw'n teimlo'n dda amdanyn nhw eu hunain ac am beth maen nhw'n gredu.

## Am beth ddylai plant a phobl ifanc ddysgu?



Rydyn ni eisiau i blant a phobl ifanc yng Nghymru ddysgu am lawer o wahanol bynciau.




I wneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn dysgu am lawer o wahanol bynciau rydyn ni wedi ysgrifennu **6 Maes Dysgu a Phrofiad**.
Y **6 Maes Dysgu a Phrofiad** ydy:



### 1. Y Celfyddydau Mynegiannol

Rhaid i ysgolion roi cyfle i blant a phobl ifanc archwilio'r celfyddydau. A dysgu sut i fwynhau a meddwl am gelf pobl eraill.



Fe ddylai plant a phobl ifanc gael cyfle hefyd i fod yn greadigol. Maen nhw'n gallu dysgu'r pethau yma drwy gymysgedd o wahanol wersi fel:



- Celf



- Dawns



- Ffilm



- Drama



- Cerddoriaeth



- **Cyfryngau digidol**

Mae **cyfryngau digidol** yn gallu meddwl unrhyw gelf rydych chi'n ei wneud drwy ddefnyddio technoleg. Fel fideo, recordio sain a gwefannau.

## 2. Iechyd a llesiant



Rhaid i ysgolion ddysgu plant a phobl ifanc sut i edrych ar ôl eu iechyd.



Mae hyn yn meddwl:

- Cael corff iach.



- Cael meddwl iach.



- Cael perthnasoedd iach gyda phobl.



- Gwneud penderfyniadau bywyd da.



Mae ysgolion yn gallu dysgu hyn drwy bethau fel coginio, chwaraeon a gwersi am **lesiant**.

Eich **llesiant** ydy unrhyw beth i'w wneud gyda'ch iechyd a'ch hapusrwydd.



## 3. Y Dyniaethau

Rhaid i ysgolion ddysgu plant a phobl ifanc i feddwl am y byd er mwyn eu helpu i'w ddeall yn well.




Mae hyn yn gallu bod drwy byncaiu fel:

- Hanes



- Daearyddiaeth



- Crefyddau, gwerthoedd a moeseg




- Busnes



- Astudiaethau Cymdeithasol




## 4. Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Rhaid i ysgolion ddysgu plant a phobl ifanc i ddeall a defnyddio gwahanol ieithoedd. Mae hyn yn meddwl Saesneg, Cymraeg a ieithoedd eraill.



**Llythrennedd** ydy sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu sydd yn ein helpu i wneud synnwyr o’r byd o’n cwmpas ni.



Rhaid i ysgolion hefyd ddysgu plant i ddeall **llenyddiaeth** a chreu eu **llenyddiaeth** eu hunain.

Mae **llenyddiaeth** yn meddwl pethau fel llyfrau, cerddi a ffilmiau rydych chi’n eu darllen, eu gwylio a’u clywed.

## 5. Mathemateg a Rhifedd





Rhaid i ysgolion ddysgu plant a phobl ifanc i ddeall a defnyddio rhifau. Mae defnyddio rhifau mewn bywyd bob dydd yn cael ei alw yn **rhifedd**.

Fe fydd dysgu am fathemateg a **rhifedd** yn meddwl:



- Sut mae rhifau’n gweithio.




- Sut mae symbolau'n gallu cael eu defnyddio a beth maen nhw'n feddwl.

Symbol ydy arwydd sydd yn gallu dweud wrthych chi beth i'w wneud. Er enghraifft, mae'r arwydd plws yn meddwl eich bod yn adio dau rif gyda'i gilydd. Fel 2 + 2.

Weithau mae symbolau hefyd yn cael eu defnyddio yn lle rhifau, er enghraifft a – b.



- Sut i fesur pethau a gweithio gyda gwahanol siapiau.



- Sut i gasglu gwybodaeth. A defnyddio'r wybodaeth yma i wneud penderfyniadau.

## 6. Gwyddoniaeth a thechnoleg



Rhaid i ysgolion ddysgu plant a phobl ifanc i ddeall natur a phethau byw. Rhaid iddyn nhw ddysgu am y **grymoedd** o'n cwmpas.



**Grymoedd** ydy pethau dydych chi ddim yn gallu eu gweld sydd yn effeithio arnoch chi, fel disgyrchiant.




Fe ddylai ysgolion hefyd ddysgu plant a phobl ifanc am sut mae technoleg yn gweithio i ddatrys problemau.

Mae hyn yn gallu bod drwy bynciau fel bioleg, cemeg, ffiseg a gwyddoniaeth cyfrifiadur.

## Sgiliau ar gyfer y cwricwlwm cyfan

Rhaid i'r holl athrawon ym mhob pwnc helpu plant a phobl ifanc i ddysgu:



- **Sgiliau llythrennedd** – gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu.




- **Sgiliau rhifedd** – deall a defnyddio rhifau.



- **Sgiliau digidol** – gallu dysgu a deall technoleg. Gallu defnyddio dyfeisiadau digidol fel cyfrifiaduron, ffonau deallus a thabledi.

## Joined-up learning



Rhaid i ysgolion ddysgu **Addysg cydberthynas a rhywioldeb**.



Mae **Addysg cydberthynas a rhywioldeb** yn meddwl pethau fel:

- Beth ydy cydberthynas iach



- Teimladau.



- Sut mae eich rhywioldeb yn rhan o bwy ydyn ni .



- Sut rydyn ni'n meddwl amdanom ni ein hunain.



Fe ddylai ysgolion hefyd ddysgu plant a phobl ifanc am bethau fydd yn bwysig iddyn nhw mewn bywyd a phethau fydd yn eu helpu i ddeall eraill yn well. Pethau fel:




- Hawliau dynol.



- Parchu gwahaniaethau pobl, fel beth maen nhw'n gredu neu o lle maen nhw'n dod.



- Dysgu am waith a dewis y math o waith rydych chi eisiau ei wneud .



- Dysgu am Gymru, eich ardal leol a'r byd.



Dydy ysgolion ddim yn gorfod cynllunio gwersi ar wahân am y pethau yma.



Fe ddylai ysgolion ddysgu'r pethau yma drwy pob gwers. Er enghraifft, mae athro/athrawes yn gallu defnyddio gwers hanes i ddysgu pam mae hawliau dynol yn bwysig.



Fe fydd Gweinidogion Cymru yn ysgrifennu rhestr o bethau sydd yn bwysig i'w dysgu ar gyfer bywyd oedolyn. Fe fyddan nhw'n cael eu galw yn **Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig**.



Fe fyddan nhw'n helpu i wneud yn siŵr bod ysgolion yn dysgu'r syniadau mwyaf pwysig ym mhob **Maes Dysgu a Phrofiad**.




Felly mae'n **rhaid** i ysgolion ddefnyddio'r **Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig** i'w helpu nhw i ysgrifennu eu cwricwlwm.

# Helpu pob dysgwr i wneud yn well



Fe fydd angen i ysgolion edrych i weld bod eu cwricwlwm yn gweithio a bod yr holl blant a phobl ifanc yn **gwneud cynnydd**.



Mae **gwneud cynnydd** yn meddwl symud ymlaen mewn dysgu. Mae'n meddwl dysgu rhagor a deall yn well.



Fe fydd plant a phobl ifanc yn mynd drwy'r cwricwlwm a dysgu pethau ar whanol gyflymdra.



Fe ddylai plant a phobl ifanc allu dechrau dysgu'r peth nesaf pan maen nhw'n barod.



Fe ddylai plant a phobl ifanc sydd angen mwy o amser i ddeall rhywbeth gael yr amser maen nhw ei angen.

Rhaid i'r cwricwlwm helpu'r holl blant a phobl ifanc i:



- Gwneud cynnydd.



- Bod yn barod am fywyd ar ôl ysgol.



Mae hyn yn cefnogi deddfau sydd yn dweud y dylen ni ateb anghenion gwahanol pobl ifanc. Ac y dylai pawb gael cyfleoedd mewn bywyd.

## Paratoi



Mae'n gyffrous cael cwricwlwm newydd i Gymru. Y cam nesaf ydy ei weld yn digwydd mewn ysgolion.



Fe fydd ysgolion ac athrawon nawr yn dechrau newid ac yn paratoi i ddysgu'r cwricwlwm newydd.



Fe fydd plant a phobl ifanc yn dysgu drwy'r cwricwlwm newydd o fis Medi 2022. Fe fydd holl blant ysgolion cynradd a'r plant ym Mlwyddyn 7 yn 2022 yn dilyn y cwricwlwm newydd.



Fe fydd plant ym Mlwyddyn 8 ac uwch yn 2022 yn dilyn yr un cwricwlwm ag sydd ganddyn nhw nawr. Pan fyddan nhw'n gorffen ysgol fe fydd y cwricwlwm hwnnw yn gorffen.

## Sut i gymryd rhan



Mae gennych chi hawl i gael dweud beth rydych chi'n feddwl am y pethau sydd yn effeithio ar eich bywyd.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am beth rydych chi'n ddysgu a sut rydych chi'n dysgu.



Fe fyddwch chi'n cael cyfle i ddweud beth rydych chi'n feddwl yng nghwricwlwm newydd eich ysgol.



Diolch am ddarllen hwn.

# Geiriau anodd

## Cwricwlwm

Cynllun ydy'r cwricwlwm ar gyfer beth mae plant a phobl ifanc yn ei ddysgu yn yr ysgol. Mae'n dweud:

- Beth ddylen nhw ddysgu.
- Sut ddylen nhw ddysgu.
- Y rhesymau pam ddylen nhw ddysgu.

## Cyfryngau digidol

Mae cyfryngau digidol yn gallu meddwl unrhyw gelf rydych chi'n ei wneud gyda chyfrifiadur. Fel fideo, recordio sain a lluniau.

## Grymoedd

Grymoedd ydy pethau dydych chi ddim yn gallu eu gweld sydd yn effeithio arnoch chi. Fel disgyrchiant.

## Gwneud cynnydd

Mae gwneud cynnydd yn meddwl symud ymlaen mewn dysgu. Mae'n meddwl dysgu rhagor a deall yn well.

## Llesiant

Llesiant ydy unrhyw beth i'w wneud gyda'ch iechyd a'ch hapusrwydd.

## Symbol

Symbol ydy arwydd sydd yn gallu dweud wrthych chi beth i'w wneud. Er enghraifft, mae'r arwydd plws yn meddwl eich bod yn adio dau rif gyda'i gilydd, fel 2 + 2. Weithiau mae symbolau yn cael eu defnyddio yn lle rhifau, er enghraifft a-b.

## Technoleg

Technoleg ydy defnyddio gwyddoniaeth a gwybodaeth i'n helpu ni i wneud tasgau. Er enghraifft, defnyddio cyfrifiaduron a pheiriannau i wneud mwy a mwy.